

## **Teitl y Swydd: Golygydd Sgriptiau Doctor Who**

Adran: Drama, STIWDIOS BBC CYMRU

Base: Porth y Rhath, Caerdydd

Graddfa: 7

### **Gofynion**

Mae manyleb swydd yn ddatganiad ysgrifenedig o nodweddion hanfodol y swydd sy'n dynodi dyletswyddau, cyfrifoldebau a graddfa awdurdod y rôl, a'r wybodaeth, y profiad a'r nodweddion personol sy'n ofynnol i ddeiliad y swydd

Mae'r dyletswyddau a ddisgrifir isod yn rhan ddisgwyliedig o Olygydd Sgriptiau profiadol a chydabyddedig.

Fel Golygydd Sgriptiau ar Doctor Who gallwch ddisgwyl cyfrannu at ystod eang o'r dyletswyddau canlynol:

### **NODAU'R SWYDD**

1. Sicrhau bod y straeon a'r sgriptiau sy'n cael eu comisiynu o'r safon angenrheidiol, yn cydymffurfio i'r briffiau golygyddol ac ar gael i'w defnyddio ar yr amser priodol.
2. Cynghori ar bob mater sy'n gysylltiedig a chynhyrchu sgriptiau a helpu i feithrin y berthynas rhwng yr awdur a'r cynhyrchiad.
3. Cynhyrchu syniadau creadigol a syniadau stori o'r safon uchaf sy'n cyd-fynd â'r gyfres.

### **SEFYDLIAD**

Bydd deiliad y swydd yn atebol i'r Cyd-Uwch Gynhyrchydd.

### **AMGYLCHEDD**

Gall cynhyrchu dramâu gynnwys patrymau gwaith hir ac annisgwyl a phwysau i gadw at amserlenni tynn a bydd angen i ddeiliad y swydd fod yn hyblyg gyda'i ddiwrnod gwaith.

### **PRIF DDYLETSWYDDAU**

1. Cynrychioli daliadau'r awdur i'r tîm cynhyrchu a daliadau'r tîm cynhyrchu i'r awdur, drwy gydol y cynhyrchiad. Sicrhau bod yr awdur yn cytuno i unrhyw newidiadau mawr i'r sgript a chyfleu safbwynt yr awdur yn ei absenoldeb.
2. Sicrhau bod yr awdur yn chwarae rhan bwysig mewn newidiadau i'r sgript er mwyn cynnal ansawdd y berthynas waith rhwng y Cynhyrchwyr/Cyfarwyddwr a'r

awdur.

3. Sicrhau bod yr awduron yn ddigon ymwybodol o oblygiadau ariannol dewisiadau golygyddol.
4. Gweithio gyda phob adran mewn cynhyrchiad i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ofynion y sgript. Lle bydd heriau'n codi, helpu i ddod o hyd i atebion creadigol gyda'r adran berthnasol gan weithio ar y cyd â'r Awdur, y Cynhyrchydd a'r Cyfarwyddwr.
5. Bod yn gyfrifol am ddarparu digon o wybodaeth i'r awduron fel bod modd cyflawni'r briffiau golygyddol o ran arddull, cynnwys, ffurf ac unrhyw ystyriaethau arbennig eraill.
6. Sicrhau ymdriniaeth gyson o gymeriadau cyfarwydd a chysondeb o fewn straeon a phenodau unigol.
7. Addasu a chynhyrchu straeon newydd o fewn eich sgriptiau yn ôl yr angen.
8. Cynhyrchu syniadau creadigol a syniadau stori tymor hir.
9. Cynhyrchu drafftiau'n gyflym ac yn greadigol a sicrhau y glynir wrth derfynau amser.
10. Cydlynu a chyfathrebu pob newid sgript i'r bobl berthnasol.
11. Dod o hyd i ddeunydd newydd a chymryd camau i adnabod ac annog doniau ysgrifennu newydd. Cynnal ymwybyddiaeth gyfredol o ddoniau newydd.
12. Sicrhau bod sgriptiau'n cael eu paratoi yn y fformat addas.
13. Bod yn ymwybodol o awdurdod ariannol a phwrcasu llawn y swydd a sicrhau bod yr awdurdod hwn yn cael ei arfer yn unol â threfniadau ariannol y BBC.
14. Sicrhau bod yr awduron yn ddigon ymwybodol o'r gwerthoedd a'r safonau golygyddol a bod sgriptiau yn cael eu datblygu mewn modd sy'n gyson â chanllawiau polisi golygu'r BBC.
15. Cefnogi gofynion sgriptio ychwanegol y gyfres, o ran unrhyw ddeunydd sy'n deillio ohono ac ar-lein.
16. Cefnogi'r Uwch-Gynhyrchydd ar wrth gyflawni ei rôl yn ôl yr angen.

## **IECHYD A DIOGELWCH**

1. Mae'r Adran Ddrama yn cofleidio'r datganiadau polisi cyffredinol sy'n cael eu cyhoeddi gan y BBC a TVMSG o ran iechyd, diogelwch a lles gweithwyr yn y gwaith ac yn ceisio darparu amgylchedd gwaith diogel ac iach lle nad yw'n gweithgareddau'n gwneud pobl yn destun risg ddiangen. Ein nod yw atal damweiniau drwy ddatblygu safonau ar gyfer y diwydiant a meithrin yr arferion

gweithio gorau.

2. Mae gan bob person yn yr Adran Ddrama gyfrifoldeb dros ddiogelwch a rhaid i unigolion fod yn ymwybodol o'r dyletswyddau cyfreithiol, economaidd a moesol sy'n gysylltiedig â dileu risg ac atal damweiniau. Ni ellir cyflawni hyn ond drwy ddarparu'r wybodaeth briodol a chyngor ymarferol yn ogystal â hyfforddiant addas a digonol. Rhaid i staff gymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi priodol a chyrsgiau gloywi.

## **GWYBODAETH A PHROFIAD ANGENRHEIDIOL**

1. Profiad o olygu sgriptiau mewn drama deledu a ddarlledir ar oriau brig
2. Dealltwriaeth wych o bob agwedd o ysgrifennu sgriptiau, gan gynnwys rhagosodiad, stori, strwythur a chymeriadau a'r gallu i ddefnyddio'r wybodaeth hon mewn sefyllfaoedd gwaith gydag awduron.
3. Profiad o weithio dan bwysau gydag awduron
4. Diddordeb mewn dramâu poblogaidd ac yn arbennig ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Ddrama'r BBC addas i deuluoedd
5. Gwybodaeth drylwyr o ffynonellau sgriptiau ac argaeledd a photensial talent newydd
6. Ymwybyddiaeth a mynediad at awduron/talent newydd o gefndiroedd amrywiol
7. Dealltwriaeth o gyfraith hawlfraint, cytundebau Urdd yr Awduron, contractau a goblygiadau'r broses gynhyrchu.
8. Ymwybyddiaeth o ganlyniadau ariannol penderfyniadau golygyddol
9. Gwybodaeth am FINAL DRAFT a phecynnau sgriptio eraill

## **NODWEDDION PERSONOL**

1. Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu sy'n ddigonol er mwyn sefydlu a chynnal perthynas weithio dda gydag ystod eang o gysylltiadau.
2. Gallu deall bwriad y Cynhyrchwyr ac i gyfleu hyn i'r awduron.
3. Gallu uniaethu ag awduron.
4. Gallu creu syniadau, ymdriniaethau a fformatau cynhyrchu creadigol.
5. Gallu dangos tact a sensitifrwydd wrth ddelio ag awduron a chynhyrchwyr.
6. Gwytnwch a stamina i gynnal eich perfformiad pan fyddwch o dan bwysau amserlenni tynn.
7. Byddwch chi'n berson rhagweithiol, hunan-gynhaliol ac yn gallu ymddiried yn eich

greddf.

8. Gallu gweithio fel aelod o dîm.

9. Cadw golwg ar y newidiadau diweddaraf mewn arferion gweithio, technegol a phroffesiynol.

10. Ystod eang o brofiadau bywyd/gwaith a thalentau a fyddai'n asedau defnyddiol ac a fyddai'n cyfoethogi eich cyfraniad i'r tîm cyfan.

## **CYMWYSEDDAU**

**Cyfathrebu** - gallu mynegi syniadau'n glir ac addasu'r arddull gyfathrebu i gwrdd ag anghenion eraill drwy ddefnyddio amrywiaeth o arddulliau a dulliau priodol i'r gynulleidfa ac i natur yr wybodaeth. Gallu deall effaith ei arddull bersonol o gyfathrebu ar bobl eraill.

**Dull o weithio cydweithredol** - gallu ystyried rhinweddau syniadau gan gydweithwyr yn wrthrychol a chaniatáu i'r syniadau hynny ysbrydoli ei ffordd ei hun o feddwl. Gallu bod yn hael ac yn frwdfrydig ynglŷn â chyfraniadau da gan bobl eraill.

**Meddwl Creadigol** - gweddnewid syniadau creadigol yn realiti ymarferol. Gallu edrych ar sefyllfaoedd a phroblemau presennol mewn ffyrdd newydd a chanfod atebion creadigol, lle bo angen.

**Barn Olygyddol** - gallu dangos barn gytbwys a gwrthrychol yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o friff comisiynu'r prosiect, gofynion y gynulleidfa, a chanllawiau ac amcanion y prosiect.

**Dylanwadu a pherswadio** - gallu cyflwyno dadleuon rhesymegol a chadarn er mwyn argyhoeddi eraill. Gallu defnyddio amrywiaeth o strategaethau i berswadio pobl mewn ffordd sy'n arwain at gytundeb neu newid mewn ymddygiad.

**Rheoli cysylltiadau a gweithio fel tîm** – gallu creu a chynnal perthynas waith effeithiol gydag amrywiaeth o bobl. Cydweithio ag eraill i fod yn rhan o dîm, yn hytrach na gweithio ar wahân neu'n gystadleuol.

**Cynllunio a Threfnu** - gallu meddwl ymlaen llaw er mwyn sefydlu dull gweithredu effeithlon a phriodol ar eich cyfer chi'ch hun ac eraill. Blaenoriaethu a chynllunio gweithgareddau gan ystyried yr holl faterion a'r ffactorau perthnasol fel terfynau amser a'r gofynion o ran staff ac adnoddau.

**Cydnherthedd** - rheoli effeithiolrwydd personol drwy reoli emosiynau yn wyneb pwysau a rhwystrau, neu wrth ddelio â sefyllfaoedd pryfoclyd. Dangos dull o weithio a nodweddir gan ymrwymiad, cymhelliant ac egni.

**Deall Amrywiaeth** - deall a gwerthfawrogi eich natur unigryw eich hun ac eraill. Dangos dealltwriaeth o amrywiaeth, ac ymrwymiad i wella amrywiaeth. Gallu egluro sut mae gwahaniaethau rhwng unigolion yn gallu bod o fudd i'r BBC.